

PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 15 MAI 2023

Yn Cynghorydd Molik(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis,
Littlechild a/ac McGarry

61 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

62 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

63 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 27 Chwefror 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

64 : STRATEGAETH DDIWYGIEDIG TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN
DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL CAERDYDD A'R FRO

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr eitem hon ar yr agenda yn caniatáu iddynt ystyried a rhoi eu barn ar y strategaeth arfaethedig.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau
- Jane Thomas, Cyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau
- Natalie Southgate, Rheolwr Cyflawni Partneriaethau, a
- Dawn Jeffrey, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a Gweithrediadau Cymorth i Fenywod Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddodd y Cadeirydd y cynrychiolydd o Cymorth i Fenywod Cymru i wneud datganiad agoriadol, gan rannu eu barn am y strategaeth arfaethedig.

Yn dilyn datganiad agoriadol gan y trydydd sector, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau oddi wrth Aelodau.

Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai dadansoddiad o'r gwersi a ddysgwyd o strategaethau blaenorol a sut maent wedi llywio'r strategaeth ddiwygiedig yn dystiolaeth werthfawr i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd. Gwnaethant awgrymu ymgorffori'r dadansoddiad hwn yn y ddogfen strategaeth.

Cytunodd yr Aelodau gyda'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth cryf ond mynegwyd pryder am yr heriau ariannol ac adnoddau sy'n wynebu partneriaid a darparwyr wrth weithredu'r strategaeth. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r strategaeth a'r cynllun gweithredu fanylu'n glir ar y gofynion ariannol ac adnoddau i bartneriaid fynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol (VAWDASV).

Mynegodd yr Aelodau bryderon am sefydliadau nodedig, gan gynnwys partneriaid statudol, sy'n profi materion yn ymwneud â VAWDASV yn eu gweithlu eu hunain. Teimlai'r aelodau y dylai'r strategaeth a/neu'r cynllun gweithredu annog sefydliadau i gynnal hunanarholiadau ac asesu eu fframweithiau adrodd mewnol a'u systemau cymorth ar gyfer VAWDASV. Awgrymodd yr aelodau hefyd y dylai'r cyngor gynnal ei hunanarchwiliad a'i archwilio ei hun o brosesau mewnol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ystadegyn a grybwyllwyd yn y strategaeth fod 4 o bob 5 menyw yng Nghymru wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle, a nodwyd ganddynt y dylid cynnal trefniadau partneriaeth ffurfiol gydag undebau llafur i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cydnabu'r Aelodau fod undebau llafur yn cael eu briffio fel rhan o Strategaeth y Gweithle y cyngor ond eu bod yn teimlo y byddai perthynas bartneriaeth bwrpasol ar gyfer mynd i'r afael â VAWDASV yn fuddiol.

Nododd yr Aelodau fod nifer y digwyddiadau a godir yn isel iawn yn ôl ystadegau'r strategaeth ac roeddent yn dymuno pwysleisio pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a hyder ymhlith dioddefwyr a goroeswyr i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol. Cydnabu'r Aelodau fod amryw o resymau pam na ellir mynd ar drywydd achosion. Croesawodd yr Aelodau ymrwymiad yn y strategaeth i godi proffil yr heddlu a chryfhau cysylltiadau â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

65 : PERFFORMIAD CH4 Y GWASANAETHAU OEDOLION A TAI A CHYMUNEDAU 2022/23

Cafodd yr aelodau wybod bod yr eitem hon yn rhoi cyfle i archwilio lefelau perfformiad y gwasanaeth.

Gan ymuno â Jane Thomas a'r Cynghorydd Thorne, croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc
- y Cynghorydd Julie Sangani, Aelod Cabinet dros Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb

- Y Cynghorydd Norma Mackie, Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Oedolion, a
- Helen Evans, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau

Gwahoddwyd Aelodau'r Cabinet i wneud datganiadau agoriadol, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd cwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y ffocws ar gasglu a defnyddio adborth yn gadarn gan ddefnyddwyr gwasanaethau i ysgogi datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.

Trafodwyd y defnydd o adnoddau Therapydd Galwedigaethol yn y timau Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC), yn benodol ar gyfer presgripsiynu gofal o dan y model Asesydd Dibynadwy, a chanfu'r Aelodau hyn yn arbennig o ddiddorol. Codwyd pryderon am wahardd data ar alwadau a ymdriniwyd gan elfen gwaith cymdeithasol tîm PCC, ond rhoddwyd sicrwydd y bydd rhestrau aros a'r galw am y tîm hwn yn dal i gael eu monitro.

Trafodwyd perfformiad islaw targed y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) a phriodolwyd iddo eu rhan mewn tasgau y tu hwnt i'w cwmpas yn ystod y pandemig ac oedi posibl wrth ryddhau cleifion mewn ysbytai. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau, wrth i'r tîm ganolbwyntio ar ailalluogi a gweithredu'r System Monitro Galwadau Electronig newydd, y dylai canlyniadau TAC wella.

Cyn symud i ddadansoddiad dwys o'r broses rhyddhau cleifion yn yr ysbyty, gofynnwyd am ddata ar nifer yr unigolion oedd angen cymorth gofal cymdeithasol yn ystod y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a'r amser aros i ddyraniad gweithiwr cymdeithasol gychwyn ar y broses, dros gyfnod o ddwy flynedd yn ddelfrydol.

Trafodwyd goblygiadau'r egwyddor "Gartref Gyntaf" ar gartrefi gofal a'r farchnad gartref. Cydnabu'r Aelodau y gofynion ychwanegol a'r pwysau a nodwyd ymdrechion lliniaru, megis defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac addasiadau priodol.

Nododd yr Aelodau yr ymdrechion i fynd i'r afael â swyddi gweddilliol, swyddi dilynol, a mwy o gwynion yn yr Uned Cynnal a Chadw Ymatebol, gan gynnwys lansiad meddal y Gwasanaeth Atgyweiriadau Ar-lein, sefydlu tîm llaith a llwydni pwrpasol, a mwy o adnoddau o fewn y tîm a'r contractwyr mewnol.

O ran recriwtio hyrwyddwyr sgrinio canser y coluddyn o leiafrifoedd ethnig, cydnabu'r Aelodau y terfynwyd y cyllid ar gyfer y swydd benodol gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd yr Aelodau y byddai partneriaethau gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a chanolfannau cymunedol, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am grwpiau ag ymgysylltiad isel, yn parhau i gynnal y gwaith hwn.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

66 : EITEMAU BRYN (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

67 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm